# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## (CWLS(2) 09-05 (p2))

### Dyddiad y cyfarfod: 29 Medi 2005

### Amser y cyfarfod: 09:00am tan 12:20 pm

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### MONITRO GWARIANT O GYLLIDEB 2005/06 YN YSTOD Y FLWYDDYN

#### DIBEN

1. Rhoi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r gwariant yn ystod y flwyddyn o'r gyllideb ar gyfer Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Byddaf yn mynd ati unwaith y tymor i baratoi adroddiad ar wariant ar gyfer yr Aelodau, a dyma'r cyntaf o'r adroddiadau hynny. Amgaeir yn Atodiad A ddadansoddiad o'r gwariant ar ddiwedd mis Awst 2005.

#### ARGYMHELLIAD

2. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r gwariant ar ddiwedd mis Awst 2005 (pumed mis blwyddyn ariannol 2005/06).

#### Y CEFNDIR

3. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ym mis Gorffennaf, rhoddais ddadansoddiad manwl i'r Aelodau o Brif Grw^p Gwariant eleni ar gyfer Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, gan wneud hynny yn ôl categorïau'r meysydd rhaglenni yn yr Adolygiad o Wariant: Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Mae hyn yn fodd i sicrhau bod materion yn ymwneud â gwariant yn fwy tryloyw, a hynny yn unol â dymuniadau'r Aelodau. Mae llinellau'r gyllideb yn y tabl yn Atodiad A yn dilyn yr un patrwm.

4. Cyfanswm y gwariant ar ddiwedd mis Awst oedd £55.2 miliwn, sef bron 40% o'r gyllideb. Mae'r gwariant ym mhob un o linellau'r gyllideb o fewn y proffil gwariant arfaethedig. Yr wyf wedi mynd ati isod i ddwyn sylw at rai o batrymau gwario gwahanol y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad:-

- Roedd Cyngor y Celfyddydau wedi hawlio bron 60% o'i grantiau cyfredol erbyn diwedd mis Awst. Mae'n talu'r gyfran fwyaf o grantiau ei Gleientiaid Refeniw yn gynnar yn y flwyddyn.

- Mae gwariant cyfalaf yr Amgueddfa Genedlaethol ar y prosiect Storio, ac ar y Grant Prynu Eitemau, yn llai na 15%. Mae llawer o waith cyfalaf yr Amgueddfa yn dibynnu ar gael caniatâd cynllunio, ac o dan rai amgylchiadau, mae'n ofynnol iddi hysbysebu'r broses dendro yng nghyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant ar y prosiectau yn dod tua'r diwedd, sy'n golygu bod mwyafrif y taliadau'n cael eu gwneud yn hwyrach yn y flwyddyn.

- ran y Grant Prynu Eitemau a roddir i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, mae'n rhaid i'r sefydliadau hyn fedru ymateb pan fo gwaith yn cael ei roi ar y farchnad, a gall hynny ddigwydd ar unrhyw adeg. Mae ganddynt Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams er mwyn iddynt fedru defnyddio cyfran o'r Grant Prynu Eitemau i dalu swm sy'n cyfateb i gyfraniad yr Ymddiriedolaeth. Dichon, felly, y byddant yn dwyn rhan o'r gyllideb ar gyfer y Grant Prynu Eitemau ymlaen tan yn hwyrach yn y flwyddyn, neu o'r naill flwyddyn i'r llall, a hynny er mwyn iddynt fedru prynu unrhyw ddarn addas o waith a ddaw i'r amlwg.

- Nid oes unrhyw wariant hyd yn hyn ar y cynllun nofio am ddim. Caiff yr Awdurdodau Lleol eu talu mewn dau gam - y taliad cyntaf ym mis Medi/Hydref, a'r taliad olaf ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

5. Yr wyf yn disgwyl i'r gyllideb gael ei gwario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## Atodiad A - GWARIANT O'R PRIF GRW^P GWARIANT AR GYFER DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON 2005/06 - Y SEFYLLFA AR DDIWEDD MIS AWST 2005

Mewn miloedd o bunnoedd

| Maes y Rhaglen Wariant | Llinell Wariant yn y Gyllideb | Y Gyllideb Flynyddol | Gwariant hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn | Y ganran o'r gyllideb a wariwyd |
|---|---|---|---|---|
| Diwylliant | Costau Rhedeg AOCC | 20,641 | 7,894 | 38.2% |
| | Derbyniadau Cyfredol AOCC | -958 | -711 | 74.2% |
| | Dibrisiant/Cost Cyfalaf AOCC | 5,123 | 2,134 | 41.7% |
| | Darpariaeth AOCC ar gyfer Pensiynau (Gwariant a Reolir yn Flynyddol)* | 15,463 | 6,443 | 41.7% |
| | Costau Rhedeg LlGC | 8,909 | 3,710 | 41.6% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Derbyniadau Cyfredol LlGC | -250 | -105 | 42.0% |
| | Dibrisiant/Cost Cyfalaf LlGC | 3,100 | 1,292 | 41.7% |
| | Darpariaeth LlGC ar gyfer Pensiynau (Gwariant a Reolir yn Flynyddol)* | 5,356 | 2,232 | 41.7% |
| | Costau Rhedeg CCC | 2,237 | 1,149 | 51.4% |
| | Dibrisiant/Cost Cyfalaf CCC | 410 | 170 | 41.5% |
| | Costau Rhedeg Cyngor Llyfrau Cymru | 1,109 | 554 | 50.0% |
| | Cymorth Cyffredinol CCC i'r Celfyddydau | 22,853 | 13,628 | 59.6% |
| | Refeniw Canolfan Mileniwm Cymru | 1,200 | 250 | 20.8% |
| | Culturenet Cymru | 300 | 127 | 42.2% |
| | CyMAL** | 3,000 | 56 | 1.9% |
| | Grant Llenyddiaeth Cyngor Llyfrau Cymru | 900 | 568 | 63.1% |
| | Grant Cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru | 1,373 | 499 | 36.3% |
| | Grant Refeniw Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 150 | 100 | 66.7% |
| | Refeniw Arall ym Maes Diwylliant | 182 | 2 | 1.0% |
| | Gwariant Cyfalaf CCC | 1,215 | 220 | 18.1% |
| | Gwariant Cyfalaf LlGC | 1,541 | 372 | 24.1% |
| | Grantiau Prynu LlGC | 611 | 255 | 41.7% |
| | Gwariant Cyfalaf AOCC | 1,275 | 900 | 70.6% |
| | Prosiect Storio - AOCC | 3,000 | 357 | 11.9% |
| | Grantiau Prynu Eitemau - AOCC | 1,075 | 141 | 13.1% |
| | CYFANSWM AR DDIWYLLIANT | 99,815 | 42,236 | 42.3% |
| Chwaraeon a Chymru Egnïol | Costau Rhedeg Cyngor Chwaraeon Cymru | 1,315 | 640 | 48.7% |
| | Dibrisiant/Cost Cyfalaf Cyngor Chwaraeon Cymru | 1,579 | 658 | 41.7% |
| | Grantiau Cyfredol, a refeniw arall Cyngor Chwaraeon Cymru | 6,999 | 2,480 | 35.4% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Sportsmatch | 450 | 143 | 31.8% |
| | Costau Swyddogion Datblygu Cyngor Chwaraeon Cymru | 1,399 | 630 | 45.0% |
| | Nofio am Ddim | 3,419 | 0 | 0.0% |
| | Refeniw Arall ym maes Chwaraeon | 25 | 0 | 1.6% |
| | Gwariant Cyfalaf Cyngor Chwaraeon Cymru | 1,120 | 307 | 27.4% |
| | CYFANSWM - CHWARAEON A CHYMRU EGNÏOL | 16,306 | 4,858 | 29.8% |
| Cymru Ddwyieithog | Bwrdd yr Iaith Gymraeg: Costau Rhedeg | 3,629 | 1,127 | 31.1% |
| | Dibrisiant/Cost Cyfalaf Bwrdd yr Iaith Gymraeg | 163 | 68 | 41.7% |
| | Grantiau Cyfredol Bwrdd yr Iaith Gymraeg | 8,708 | 3,587 | 41.2% |
| | Refeniw Arall ym maes y Gymraeg | 60 | 0 | 0.0% |
| | Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Cyfalaf | 177 | 33 | 18.6% |
| | CYFANSWM - CYMRU DDWYIEITHOG | 12,737 | 4,815 | 37.8% |
| Cymru Hanesyddol | CBHC: Costau Rhedeg a Gwariant Cyfredol | 1,713 | 621 | 36.3% |
| | CBHC: Dibrisiant/Cost Cyfalaf yr Ystad Sifil | 54 | 22 | 40.7% |
| | CBHC: Dibrisiant/Cost Cyfalaf | 80 | 33 | 41.3% |
| | Gwariant Cyfalaf Cadw | 2,640 | 359 | 13.6% |
| | Dibrisiant a Thaliadau Cyfalaf Cadw | 498 | 208 | 41.8% |
| | Gwariant Cyfredol Cadw | 8,374 | 2,662 | 31.8% |
| | Derbyniadau Cadw | -3,280 | -627 | 19.1% |
| | CYFANSWM - CYMRU HANESYDDOL | 10,079 | 3,278 | 32.5% |
| | | | | |
| | Cyfanswm y Prif Grw^p Gwariant ar Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon | 138,937 | 55,188 | 39.7% |

* Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cael ei arwain gan y galw ac yn cael ei neilltuo'n benodol, ac fe'i defnyddir bob blwyddyn ar gyfer meysydd gwariant na ellir eu rhagweld. Mae'r Trysorlys yn ymateb i unrhyw newid yn y galw drwy addasu'r swm sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer Gwariant a Reolir yn

Flynyddol. Nid yw cynlluniau pensiwn yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol yn rhan o gynlluniau'r gwasanaeth sifil a Llywodraeth Leol. Maent yn seiliedig ar fuddsoddiadau, ac yn gallu godi a gostwng, gan ddibynnu ar y marchnadoedd. O'r herwydd, maent yn dod o dan y categori Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Dyraniadau yw'r rhain nad ydynt yn rhai ariannol, a'r enw a roddir arnynt yn y maes cyfrifyddol yw Darpariaethau. Mae'r Darpariaethau hyn yn cydnabod bod yma rwymedigaeth i'w bodloni, ac o'r herwydd, mae'r Trysorlys wedi darparu ar gyfer y gost bosibl hon. Gan fod y dyraniadau hyn yn cael eu neilltuo'n benodol, ni ellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw beth arall.

**Ar gyfer Costau Rhedeg yr Is-adran honno y mae £1 miliwn o'r gyllideb £3 miliwn sydd wedi'i dyrannu i CyMAL, a bydd y costau rhedeg hynny yn cael eu trosglwyddo i'r Prif Grw^p Gwariant ar gyfer Gweinyddiaeth Ganolog yn hwyrach yn y flwyddyn. Cyfeirio at wariant ar raglenni yn unig y mae'r swm o £56 mil a wariwyd hyd yn hyn. Mae gan CyMAL gyllideb rhaglenni o £2 miliwn, yn bennaf ar gyfer rhoi grantiau i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd. Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau hyn yn cwblhau'r gwaith ac yn hawlio'u grant tua diwedd y flwyddyn ariannol.